





# 2025-2026

## Adroddiadiad y Bwrdd Rheoli a Chyngor Celfyddydau Cymru #26

**Y cyfnod dan sylw: 1 Gorffennaf – 30 Medi 2025**

Llun: Bardd Plant Cymru 2025-27 Siôn Tomos Owen a 2025-27 Children's Laureate Wales, Nicola Davies

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon**

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol 3

Uchafbwyntiau Gweithgaredd Chwarter 1 4

Ein lle yn y sector 6

**Ein heffaith:**

Dathlu cyfnodau Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales 23-25 8

**Edrych yn ein Blaenau** 12

**Cyngor Celfyddydau Cymru 2025-26** 14

**Gwersi i'w dysgu**

Gweithgaredd a Gweithredol 27

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido CCC** a'n **gofynion adrodd mewnol** sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â'n **Gwersi i'w Dysgu.**

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol ac Artistig

Roedd hi'n dipyn o barti yr haf hwn – a ninnau'n achub ar bob cyfle i ddathlu awduron Cymru. Dechreuodd y Chwarter drwy gynnal seremoni Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn Theatr y Sherman. Roedd hwn yn gyfle gwych i ddod ag awduron, cyhoeddwyr a'r holl sector ynghyd mewn dathliad go iawn, er gwaethaf pa mor anodd yw'r sefyllfa o'n cwmpas ni.

Nid digwyddiad undydd yw Gwobr Llyfr y Flwyddyn, serch hynny. Yn syth ar ôl y seremoni, roedden ni'n cwrdd â'r enillwyr, Iola Ynyr a Carys Davies, i gynllunio digwyddiadau dathlu ledled y wlad, ac yn paratoi i agor proses ymgeisio Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2026. Mae mân newidiadau wedi'u gwneud i drefniadau'r flwyddyn nesaf ar ôl cyfnod ymgynghori defnyddiol gyda'n prif bartneriaid (Cyngor Llyfrau Cymru, Cyhoeddi Cymru) a beirniaid y gorffennol er mwyn diffinio ein categori ffeithiol-greadigol yn well.

Fis Medi hefyd, bu cyfle i ddathlu diwedd cyfnodau'r Children's Laureate a'r Bardd Plant – Alex Wharton a Nia Morais – ac i gyhoeddi enwau ein beirdd plant newydd – Nicola Davies a Siôn Tomos Owen. Cawson ni groeso cynnes gan y llyfrgellwyr hyfryd ym Maesteg a phlant lleol, ac roedd yn gyfle i weld y mwynhad y mae'r cynlluniau hyn yn dal i'w roi i blant ym mhob cwr o'r wlad. Rydyn ni'n edrych yn ôl yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn ar effaith cyfnodau Nia ac Alex yn eu swyddi. Bydd gan Nicola a Siôn yn sicr esgidiau mawr i'w llenwi.

Bu'n haf prysur yn Nhŷ Newydd hefyd. Rydyn ni wedi bod yn llawn dop, a'r cyrsiau'n cynnwys barddoniaeth gydag Owen Sheers, Andrew McMillan a Zoë Brigley; croesawu partneriaid o Iwerddon i ysgol haf *Stinging Fly*; a chynnal priodas, hyd yn oed! At hynny, rydyn ni wedi treulio oriau dirifedi'n trafod draeniau a morter calch, diolch i'n cais llwyddiannus i Gyngor Celfyddydau Cymru am gyllid cyfalaf.

Wrth i'r sefyllfa wleidyddol gartref a thramor barhau i greu rhaniadau, a honno'n aml yn sefyllfa annynol, roedd hi'n teimlo'n bwysicach nag erioed yn ddiweddar ein bod yn dathlu doniau awduron Cymru a'r mwynhad sydd i'w gael drwy ysgrifennu. Mae datblygu amrywiaeth y bobl sy'n ysgrifennu, a rhannu eu bydolwg unigryw, yn hollbwysig.
Felly, wrth i ni gamu i'r gaeaf, byddwn ni'n dal i ddyfalbarhau. Mae cyrsiau strategol ar y gorwel, a galwadau i gynlluniau datblygu awduron. Llond trol o bethau i fod yn obeithiol yn eu cylch... gan gynnwys y draeniau newydd!

Claire Furlong, Cyfarwyddwr Gweithredol
Leusa Llewelyn, Cyfarwyddwr Artistig



Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau:

- Dechreuodd Chwarter 2 gyda seremoni Gwobr Llyfr y Flwyddyn, a oedd yn cynnwys perfformiad gan Sarah McCreadie, Bardd EWRO Cymru 2025. Wrth i'r Chwarter ddirwyn i ben, agorodd y ffenestr ymgeisio ar gyfer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2026
- Croesawodd Llyfrau Lliwgar geisiadau ar gyfer encil rhad ac am ddim i awduron LHDTC+ Cymraeg. Rydyn ni'n edrych ymlaen at eu cwrdd ym mis Tachwedd.
- Croesawodd Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd 150 o awduron i 13 o gyrsiau yn Chwarter 2, gan gynnwys cyrsiau Ysgrifennu Barddoniaeth ag Angerdd ac Ysgrifennu Ffuglen i Oedolion Ifanc: O syniad cychwynnol i ddrafft gorffenedig. Buon ni hefyd yn hwyluso amrywiaeth o gyrsiau preifat, gan gynnwys nofio gwyllt a yoga.
- Daeth Tialda Hoogeveen, Bardd Plant Ffrisia ar ymweliad â Chymru gan aros yn Nhŷ Newydd.
- Roedd Diosg, y grŵp ysgrifennu cymunedol am yr hinsawdd, a sefydlwyd fel rhan o gynllun Llên Mewn Lle, yn rhan o arlwy Gŵyl Arall.
- Parhaodd gweithgarwch ein rhaglenni datblygu awduron. Clywodd grŵp Pencerdd gan Gruffudd Eifion Owen, a mwynhaodd grŵp Cynrychioli Cymru ddosbarth meistr mewn ysgrifennu ffuglen gyda Manon Steffan Ros a sesiwn ysgrifennu barddoniaeth gyda Kim Moore.
- Bu Anni Llŷn yn hwyluso gweithdai barddoniaeth ar themâu natur, diwylliant a threftadaeth mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Cafodd 13 o ddigwyddiadau gymorth gan y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau. Un o'r uchafbwyntiau yn hyn o beth oedd gŵyl Rhwng y Coed – yr amcangyfrif yw ei bod wedi denu 4,500 o bobl.




Camu gan Iola Ynyr oedd enillydd Llyfr Y Flwyddyn 2025.




Agorwyd Pabell Lên yr Eisteddfod Genedlaethol gan raglen ysgolion Llenyddiaeth Cymru, Croeso i Wrecsam.





Agorodd y broses ymgeisio ar gyfer ein cwrs Ysgrifennu Ffuglen i awduron sy'n cael eu tangynrychioli. Francesca Reece ac Anthony Shapland yw tiwtoriaid y cwrs.



Mae 20 o fentoriaid yn cefnogi awduron ar ddwy raglen datblygu awduron: 'Sgwennu'n Well a Cynrychioli Cymru




Cafodd Siôn Tomos Owen ei enwi fel Bardd Plant Cymru




Lansiwyd rhaglen o ddigwyddiadau rhithwir rhad ac am ddim i helpu i ddatblygu awduron proffesiynol, gyda'r sgwrs gyntaf yng nghwmni cyhoeddwyr Cymraeg yn cael ei chynnal fis Medi.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Ein lle yn y Sector



Seremoni **flynyddol Gwobr Llyfr y Flwyddyn**, a gynhaliwyd eleni yn Theatr y Sherman yng Nghaerdydd, yw ein cyfle mwyaf i ymwneud wyneb yn wyneb â'r sector llenyddiaeth a chyhoeddi. Roedd tua 300 o westeion yn bresennol – yn amrywio o gynrychiolwyr y sector i awduron, o wleidyddion i bartneriaid prosiectau. Yn dilyn llwyddiant mawr y noson eleni, aeth Claire a Leusa i Aberystwyth ym mis Medi a chael trafodaethau cadarnhaol iawn â'r **Cyngor Llyfrau** am uno dathliadau gwobrau Tir Na n-Og a Llyfr y Flwyddyn. Cafodd ein **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** ei gwblhau yn y cyfarfod hwn hefyd, tra cafwyd trafodaethau buddiol am ddatblygu awduron a llwybrau i gyhoeddi.

Mae effaith cyfnod **preswyl rhyngwladol LLIF** yn Nhŷ Newydd ym mis Mai yn dal i'w teimlo, gyda rhagor o gyfleoedd cyfnewid rhyngwladol ar y gweill drwy ddylanwad uniongyrchol rhai o'r partneriaid yn Ewrop a'r Deyrnas Unedig fel British Council Cymru. Ym mis Medi, rhoeson ni groeso i **Tialda Hoogeveen, y bardd plant Ffriseg**, i gyfnewid syniadau a phrofiadau ynghylch annog plant i fwynhau a defnyddio ieithoedd lleiafrifol drwy lenyddiaeth.

Drwy ei chroesawu, cawson ni gyfle i gyfarfod unigolion diddorol, gan gynnwys y cynghorydd sy'n gyfrifol am addysg ar gabinet Cyngor Gwynedd. Aeth Tialda hefyd gyda'n staff i'r digwyddiad i gyhoeddi enwau ein **Bardd Plant a'r Children's Laureate ym Maesteg**. Ym mis Hydref **bydd bardd o Wcráin, Tania Ronionova**, yn treulio encil yn Nhŷ Newydd am fis – lle bydd hi'n gweithio gyda'r beirdd o Gymru sy'n rhan o brosiect LLIF i gyfieithu barddoniaeth am heddwch o'r Gymraeg i'r Wcreineg ac o'r Wcreineg i'r Gymraeg.

Yn gynharach yn y Chwarter, agorodd Llenyddiaeth Cymru **Babell Lên yr Eisteddfod Genedlaethol** gyda sesiwn i ddathlu prosiect addysg mawr a drefnon ni yn Wrecsam gydag ysgolion lleol. Mae Leusa yn dal yn aelod o **bwyllgor llenyddiaeth canolog yr Eisteddfod**, partneriaeth bwysig ac ystyried cyrhaeddiad eithriadol y brifwyl o ran cynulleidfaoedd llenyddol.

Mae **helpu awduron unigol** i gyflawni eu huchelgeisiau personol yn dal yn flaenoriaeth i'r staff, ac yn aml maen nhw'n cael ymholiadau am lwybrau i gyhoeddi, cyfleoedd ariannu, ac egwyddorion teg ar gyfer gwaith llawrydd. Mae llawer o'r sgyrsiau anffurfiol hyn yn troi yn berthynas fwy ystyrlon wrth i awduron ymuno â chyrsiau a rhaglenni, neu fynd yn eu blaenau i gael llwyddiant fel awduron. Rydyn ni'n ymfalchïo yn y gwaith pwysig hwn rydyn ni'n ei wneud.

Rydyn ni'n parhau i ymwneud ag amrywiaeth eang o bartneriaid, ac adnewyddwyd nifer o gytundebau partneriaeth yn Chwarter 3, gan gynnwys y rheini â'r **Urdd, Celfyddydau Anabledd Cymru, Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth Prifysgol Caerdydd, WWF Cymru a mwy**.


# Uchafbwynt: Dathlu cyfnodau Bardd Plant Cymru a’r Children's Laureate Wales 2023-25: Nia Morais ac Alex Wharton.

Ers dechrau yn eu swyddi yn 2023, mae gwaith Alex a Nia wedi cyrraedd bron i 8,000 o blant a phobl ifanc. O Fôn i Fynwy, maen nhw wedi gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc o bob cwr o Gymru, gan eu helpu i fwynhau llenyddiaeth. Ym mis Medi, trosglwyddwyd yr awenau i ddau awdur ysbrydoledig arall: Siôn Tomos Owen fydd Bardd Plant Cymru a Nicola Davies fydd y Children’s Laureate Wales. Mae’r tudalennau nesaf yn sôn am rai o uchafbwyntiau cyfnodau Nia ac Alex.

Drwy ei holl brosiectau, mae Nia wedi defnyddio llenyddiaeth fel ffordd o edrych ar ein perthynas â’r byd a’n perthynas â’n gilydd. Mae ei gwaith wedi rhoi hwb i leisiau plant a phobl ifanc, ac wedi annog dealltwriaeth rhwng diwylliannau. Isod ceir enghreifftiau o rai o’r prosiectau mae Nia wedi’u hwyluso.



Nia Morias, Bardd Plant Cymru 2023-2025




Roedd Celf ar y Cyd yn edrych ar y berthynas rhwng lluniau a llenyddiaeth gan ddefnyddio’r broses ecffrastig. Mae modd gweld ymatebion y plant fan hyn.

I am walking home and thinking of you.
Past the bare bushes and trees,
The farms lying in a patchwork
On quiet green hills.
Wyt ti wedi bwyta heddi? Sut wyt ti’n cysgu?

النار تهلك كل شيء،
*The fire consumes all that lies in its path*

والعنقاء تنظر إلينا بعينها الوحيدة من عل،
*And the phoenix watches us from above with one open eye*

Gweithiodd Nia yn rhyngwladol gydag Ashtar Theatre (ym Mhalesteina) a Theatr Cymru i greu cerdd dairieithog yn cyfuno Arabeg, Cymraeg a Saesneg.



Ymunodd Ffrindiau’r Bardd Plant â Nia yn neg o siroedd Cymru, gan gynnal gweithdai ysgrifennu creadigol i tua 900 o ddisgyblion.

# Uchafbwynt: Dathlu cyfnodau Bardd Plant Cymru a’r Children's Laureate Wales 2023-25: Nia Morais ac Alex Wharton.

Un o brif uchelgeisiau Alex Wharton fel Children's Laureate Wales oedd helpu plant a phobl ifanc i ddarganfod hud a lledrith iaith. Roedd yn awyddus iddyn nhw deimlo bod pobl yn eu deall nhw, ac am i’r mwynhad a’r rhyddid sy’n dod law yn llaw ag ysgrifennu a darllen eu hysbrydoli nhw. Roedd ei weithdai yn ymdrin â nifer o themâu. Cerddodd Alex dros 40 milltir i bump ysgol wahanol i rannu straeon am fywyd gwyllt lleol, a helpodd 16 o dadau yn yr Uned Deuluol yng Ngharchar y Parc i fynegi eu cariad at eu plant. Nod Alex oedd defnyddio llenyddiaeth fel ffordd o gysylltu a dathlu pethau. Mae effaith ymweliadau Alex i’w gweld yn y dyfyniadau ar dde’r dudalen hon.



Gweithdai Alex gyda’r elusen UCAN



Ymweliad ag ysgol fel rhan o gynllun Shorelines and Shipwrecks

“*Fe wnaeth Alex greu awyrgylch cynnes a chynhwysol, a’r holl unigolion ifanc yn teimlo’u bod nhw’n cael eu clywed a’u gwerthfawrogi. Ac fe gawson nhw’u hannog i fynegi eu hunain drwy farddoniaeth. Drwy ei egni, ei empathi a’i greadigrwydd, daeth y sesiynau’n fyw, ac ymatebodd y plant yn frwd ac yn llawen. Roedd hi’n galonogol dros ben eu gweld nhw’n magu hyder ac yn darganfod ffyrdd newydd o ddefnyddio iaith a dychymyg.*

**- Jane Lantham, Cyfarwyddwr Datblygu, UCAN**

*Roedd hi’n galonogol gweld llenyddiaeth yn ennyn diddordeb ac yn creu mwynhad. Roedd yr ymweliad yn hynod, ac yn ein hatgoffa o ddylanwad cadarnhaol mynegiant creadigol.*

**- Hayley Morris, Carchar y Parc**

*Roedd y plant wrth eu boddau yng nghwmni Alex! Fe wnaeth o’u hysbrydoli nhw i ysgrifennu eu barddoniaeth eu hunain, ac roedd rhai o’r disgyblion tawelaf, hyd yn oed, yn gwirfoddoli i ddarllen eu gwaith. Roedd ganddo ffordd o wneud y plant mwyaf swil yn hyderus.*

**- Ysgol Rhyd y Llan**”

# Edrych yn ein blaenau

Mae cyflwyno'r Adroddiadau Sefydliadol yn ein cyfarfodydd Bwrdd yn ffordd ardderchog o roi crynodeb o'r Chwarter diwethaf. Serch hynny, yn go aml, mae hi'n teimlo bod y wybodaeth wedi dyddio, gan ein bod eisoes wedi dechrau gweithio ar y prosiect nesaf! Dyma rai o'r uchafbwyntiau y gallwn ni edrych ymlaen atyn nhw yn Chwarter 3:

- Croesawu, **Tania Ronionova**, yr awdur o Wcráin, ar gyfnod preswyl pedair wythnos yn Nhŷ Newydd ym mis Hydref, gyda chefnogaeth British Council Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru (CCC)
- Lansio **Rhaglen Tŷ Newydd 2026 ym mis Hydref** a chynnal **4 cwrs strategol (rhad ac am ddim)** yn y ganolfan i amrywiaeth o grwpiau gan gynnwys grŵp LHDTCA+ Cymraeg; awduron Cymraeg o dan 25 oed; ac awduron ffuglen sy'n cael eu tangynrychioli yn sîn lenyddol Cymru
- Cynnal 5 **gweminar gyhoeddus** yn rhad ac am ddim er mwyn helpu awduron. Ymhlith y sesiynau mae paneli gyda chynrychiolwyr o gyhoeddwyr a chylchgronau; diogelu'r hwylusydd creadigol; a noson i ddathlu beirdd plant 2023-25, Nia Morais ac Alex Wharton. Rydyn ni'n annog ein hymddiriedolwyr i ymuno fel aelodau o'r gynulleidfa.
- Dechrau gwaith cadwraeth ac adnewyddu yn Nhŷ Newydd fel rhan o **brosiect Grant Cyfalaf** £160k gan Gyngor Celfyddydau Cymru
- Y broses ymgeisio'n agor ar gyfer 4 o **raglenni blaenllaw i ddatblygu awduron:** Cynrychioli Cymru #6, Pencerdd #3; Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad i awduron Byddar/Anabl; a'n Sgwad Sgwennu Cenedlaethol i bobl ifanc 16-18 oed
- Diwrnod(au) **Cwrdd i Ffwrdd** i'r staff a'r Bwrdd yn Nhŷ Newydd ym mis Tachwedd.
- Mae ffenestr ymgeisio Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2026 bellach ar agor a bydd yn cau yn Chwarter 3.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26:

Dyma esboniad o'r lliwiau ar y tudalennau canlynol:

- Yr holl res yn wyrdd: Mae'r targed wedi'i gyrraedd, neu rhagorwyd arno
- Gwyrdd yn y golofn dde: Ni ragwelir y bydd problemau wrth gyflawni'r targed hwn. Gallai olygu bod y gweithgarwch wedi'i drefnu yn ddiweddarach yn y flwyddyn ond wedi'i gadarnhau, neu ei fod yn darged ar gyfer gwaith ar y gweill, ond ein bod yn amlwg am lwyddo
- Oren yn y golofn dde: Mae gan yr arweinwyr rai pryderon am ein gallu i gwrdd â'r targed hwn erbyn mis Mawrth 2026. Bydd esboniad pellach o'r pryder hwnnw wedi'i roi'n ysgrifenedig. Er enghraifft, efallai nad ydyn ni wedi cadarnhau dyddiad ar gyfer digwyddiad eto, neu ein bod yn dibynnu ar bartner
- Coch yn y golofn dde: Rydyn ni wedi methu cyrraedd y targed hwn. Os byddwn ni wedi methu cyrraedd targed, byddwn ni'n esbonio pam ac yn egluro beth arall rydyn ni'n ei wneud i geisio sicrhau y byddwn yn cael yr effaith a fwriadwyd, neu effaith debyg.

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Creadigrwydd

Canlyniadau:

- Crëir gwaith creadigol newydd sy’n cyfoethogi hunaniaeth lenyddol Cymru
- Mae awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn derbyn llwyfan ac yn cael eu dathlu, trwy berfformiadau, comisiynau a chael eu penodi'n diwtoriaid, beirniaid ac yn feirdd llawryfog.
- Sector byrlymus sy’n ffynnu ar gyfer awduron a hwyluswyr llenyddol lle cânt eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| 8 darn o waith comisiwn newydd gan y Bardd Cenedlaethol, wedi’u cyhoeddi a/neu berfformio. | **Ar y trywydd iawn:** Mae 6 yn yr arfaeth, gan gynnwys:<br>1) Y Storm (Menywod Cronig) – wedi’i gwblhau,<br>2) Comisiwn ym mis Hydref 25 gan y Barbican Centre<br>3) Y Ganolfan Astudiaethau Islam yn y Deyrnas Unedig – mis Hydref<br>4 ) Coffi – Tachwedd 25<br>5) Techniquest@40 – Rhagfyr 25<br>6) Santes Dwynwen – Ionawr 26 | **Ar y trywydd iawn:** Mae Y Storm wedi’i chwblhau, a threfniadau wedi’u gwneud ar gyfer Coffi, y Barbican Centre, y Ganolfan Astudiaethau Islam, Techniquest a Santes Dwynwen. | Mae dau gyfle arall i’w trefnu, ond mae’r rheolwr prosiect yn hyderus |
| 15 o gerddi newydd wedi’u creu gan fenywod sydd â phrofiad bywyd o anabledd a salwch cronig, a hynny fel rhan o’r rhaglen Menywod Cronig. | **Wedi’u cwblhau:** Maen nhw i gyd wedi’u cyfieithu felly mae 28 cerdd i gyd. Bydd y flodeugerdd yn cael ei chyhoeddi gan Honno yn Chwarter 4. | | |
| Cerdd newydd ar ffurf gwaith celf gweledol wedi’i chreu ar y cyd rhwng Anni Llŷn ac aelodau o grŵp cymunedol ym Mhen Llŷn, gan ymateb i thema erydiad a Sarn y Plas. | **Bron wedi’u cwblhau:** Cafodd ‘Eiliad’, sef cerdd gan Anni Llŷn, ei chyflwyno yn Gymraeg a Saesneg mewn digwyddiad cymunedol yn Sarn y Plas ym mis Medi. Ni fydd y gwaith celf terfynol yn barod tan y gwanwyn, ond siaradodd yr artist am y broses yn y digwyddiad, ac roedd model o’r gwaith celf i’w weld yn y lleoliad. | **Bron wedi’u cwblhau:** Cafodd digwyddiad cyhoeddus i gyflwyno’r gerdd ei gynnal ym mis Medi, ond ni fydd y gwaith celf yn cael ei osod yn y lleoliad tan y ceir tywydd gwell yn y gwanwyn. | |
| 75 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu awduron dwys (megis Cynrychioli Cymru neu Gwrs Strategol TN). | **Ar y trywydd iawn**: Wedi ymwneud â 43 hyd yma eleni, gyda disgwyl ymwneud â llawer mwy yn ystod y Cyrsiau Strategol y gaeaf hwn. | Mae’r gwaith cynllunio ar gyfer y cyrsiau strategol yn mynd rhagddo, a fydd yn ychwanegu: Egin Awduron: 12, Cynrychioli Cymru#6: 12, Cwrs Olwen: 12, Llyfrau Lliwgar: 12, Ailddyfeisio’r Prif Gymeriad: 8. Bydd hyn yn creu cyfanswm o 99. | |
| 3 astudiaeth achos yn cael eu cyhoeddi yn dathlu awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi elwa o raglenni LlC a ‘thudalen crychdonnau’ wedi’u creu ar gyfer y wefan. | **Ar y trywydd iawn:** Cysylltwyd ag awdur a bwriedir creu astudiaeth achos ar fideo erbyn diwedd yr haf. Bydd angen penderfynu ar ddau awdur arall erbyn tymor yr hydref 2025 gyda golwg ar gyhoeddi’r astudiaethau achos ym mis Medi, mis Tachwedd a mis Chwefror. | **Oedi:** Cynnwys a gasglwyd gan y staff ar gyfer y dudalen ‘crychdonnau’. Bu oedi wrth greu astudiaeth achos awdur, ond y cynllun o hyd yw creu 3 erbyn diwedd mis Mawrth. | Bydd y tîm cyfathrebu yn cael cymorth ychwanegol. |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Creadigrwydd

Canlyniadau:

- Creir gwaith creadigol newydd sy'n cyfoethogi hunaniaeth lenyddol Cymru
- Mae awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn derbyn llwyfan ac yn cael eu dathlu, trwy berfformiadau, comisiynau a chael eu penodi'n diwtoriaid, beirniaid ac yn feirdd llawryfog.
- Sector byrlymus sy'n ffynnu ar gyfer awduron a hwyluswyr llenyddol lle cânt eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| 8 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu awduron LlC yn cael eu gwahodd am y tro cyntaf fel tiwtoriaid neu ddarllenydd gwadd ar gyrsiau Tŷ Newydd (wyneb yn wyneb neu yn rhithiol). | **Ar y trywydd iawn:** Bydd y rhaglen yn cael ei lansio ym mis Hydref. | **Ar y trywydd iawn:** Gwnaed gwaith rhaglennu yn y Chwarter hwn, gyda'r cadarnhad terfynol i ddod yn yr wythnosau nesaf. Bydd modd cyflawni'r targed hwn heb broblemau. | |
| Hwyluswyr Sgwennu'n Well yn cael eu cefnogi i gynllunio a chyflawni prosiectau creadigol ar gyfer iechyd a llesiant yn eu cymunedau dewisedig. Grŵp o 6 o hwyluswyr, a hwythau'n awduron sy'n cael eu tangynrychioli, yn cael cymorth personol i ddatblygu rhaglen i gefnogi cymuned o'u dewis nhw erbyn mis Rhagfyr 2025. | **Ar y trywydd iawn:** Mae'r cynllun hyfforddiant wedi'i gynnal, ac mae hwyluswyr dan hyfforddiant wedi cyflwyno cynlluniau eu prosiectau. Bydd y rhain yn cael eu cynnal rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Mawrth 2026. | **Ar y trywydd iawn:** Cafodd hwyluswyr dan hyfforddiant gymorth i ddatblygu cynlluniau eu prosiectau, a gyflwynwyd ar ddiwedd mis Medi. | |
| 10 o awduron a gymerodd ran yng nghwrs Ailddychmygu'r Prif Gymeriad yn 24/25 yn sôn yn gadarnhaol am eu hyder a'u sgiliau creadigol 9 mis ar ôl y cwrs (Tachwedd 2024). Bydd 8 yn rhagor o awduron sy'n Anabl a/neu'n Fyddar yn cael eu recriwtio ar gyfer grŵp 3, gyda rhaglen addas yn cael ei chreu ar gyfer cwrs preswyl yn Nhŷ Newydd. | **Oedi ond yn mynd rhagddyn nhw:** Anfonwyd ffurflen adborth ar ôl cynnal y prosiect, gyda mymryn o oedi. Hyd yma mae 8 wedi ymateb. Mae disgwyl recriwtio yn Chwarter 3. | **Oedi ond yn mynd rhagddyn nhw:** Dosbarthwyd holiadur ac mae pecynnau recriwtio ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesaf wrthi'n cael eu creu i'w lansio ym mis Tachwedd 2025 | |
| 14 o awduron yn cymryd rhan yn Speak Back (cwrs i egin awduron) ym mis Mawrth 2025 yn dweud eu bod wedi cyflawni amcanion creadigol personol 6 mis yn ddiweddarach, a hynny diolch i'r cwrs. Er enghraifft, perfformio mewn digwyddiad barddoniaeth o bwys, neu ennill 'slam'. | **Wedi'u cwblhau:** Ymhlith rhai o'r uchafbwyntiau mae:<br><br>Perfformiadau yng Ngŵyl Ymylol Caeredin (fel rhan o Ŵyl Caeredin); buddugoliaeth yng Nghystadleuaeth Barddoniaeth yr Eisteddfod Genedlaethol; arweinydd gweithdy ar gyfer Gwobr Dylan Thomas a chomisiwn fideo gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.<br><br>Mae'n bosibl mae'r budd mwyaf yw'r cysylltiadau a wnaed:<br>*'Gwahoddais i Katrina Moinet i ddigwyddiad sgwrs fel rhan o Ŵyl Farddoniaeth Aberystwyth. Rwy' mor falch dros Katrina [am ei holl lwyddiant]; rydyn ni'n ffrindiau. Rwy'n ddiolchgar iawn am gael cwrdd yn Speak Back'.* - Suzanne Iuppa | | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Cydraddoldeb ac Ymgysylltu

Canlyniadau:

- Cynnydd mewn hyder ac arbenigedd sefydliadol wrth roi cynhwysedd a hygyrchedd wrth wraidd cynllunio creadigol
- Mae cyfleoedd i ymwneud â llenyddiaeth yn cael eu darganfod gan unigolion ledled Cymru
- Mae cymunedau a dangynrychiolir yn hanesyddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Staff yn adrodd cynnydd mewn hyder ac ymwybyddiaeth wrth wneud prosiectau yn hygyrch ac yn gynhwysol, ac yn defnyddio chyfarfodydd staff a creadigol i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Dros 50% yn cytuno'n gryf. | **Ar y trywydd iawn:** Arolwg y staff i'w gynnal yn Chwarter 3. | **Ar y trywydd iawn:** Arolwg staff wedi'i lunio, i'w anfon yn Chwarter 3 | |
| Mae'r staff yn dweud bod ganddyn nhw fwy o ddealltwriaeth a hyder i weithio'n sensitif gydag awduron anabl a B/byddar ar ôl datblygu a darparu cwrs yn Nhŷ Newydd yn benodol i'r gymuned hon. 100% o'r staff a weithiodd ar gwrs Ailddychmygu'r Prif Gymeriad yn dweud bod ganddyn nhw fwy o ddealltwriaeth a hyder. | **Dim cynnydd eto:** Encil yn cael ei gynllunio a bydd hyn yn cael ei fesur yn arolwg y staff yn ddiweddarach eleni. | **Ar y trywydd iawn:** Arolwg y staff wedi'i lunio. Mae'r dogfennau i ymgeisio am encil 2026 wrthi'n cael eu llunio, ac mae'r staff yn rhoi ar waith y gwersi a ddysgwyd y llynedd | |
| Y Tîm Cyfathrebu i rannu canllawiau â staff ar gyfer canfod cynulleidfaoedd targed ac unrhyw rwystrau y gallan nhw'u hwynebu wrth ymwneud â'n cyfleoedd a'n gwasanaethau. Canllawiau wedi'u rhannu erbyn mis Mehefin 2025 a'r staff yn yr arolwg staff blynyddol yn dweud bod ganddyn nhw fwy o wybodaeth a hyder. | **Yn ôl ar y trywydd iawn:** Mae'r canllawiau wedi'u rhannu, mae cymorth wedi'i roi i'r staff perthnasol, a bydd arolwg staff i ganfod gwybodaeth/hyder y staff yn cael ei gynnal yn Chwarter 3. | **Yn ôl ar y trywydd iawn:** Cafodd canllawiau eu rhannu yng nghyfarfod y staff ym mis Awst, ac mae cyfarfodydd â rheolwyr prosiectau sy'n creu prosiectau newydd yn cael eu cynnal i roi'r cyngor ar waith. | |
| 175 o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu hariannu trwy Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, a dwy astudiaeth achos yn cael eu rhannu gan drefnwyr digwyddiadau yn manylu sut i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. | **Ar y trywydd iawn:** Cefnogwyd 110 o sesiynau yn hanner cyntaf y flwyddyn. | **Ar y trywydd iawn:** Cefnogwyd 29 o sesiynau rhwng mis Mehefin a mis Medi. Mae'r niferoedd yn is yn Chwarter 2 gan fod llai o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal dros yr haf. | |
| 40 o gyfranogwyr sydd â phrofiad bywyd o anabledd a/neu salwch cronig yn sôn am yr effeithiau cadarnhaol ar lesiant wrth gymryd rhan mewn gweithdai sy'n gysylltiedig â'r prosiect Menywod Cronig, o dan arweiniad Hanan Issa a Gwyneth Lewis. | **Ar y trywydd iawn:** Y gweithdai i'w cynnal rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Chwefror 2026. | **Ar y trywydd iawn:** Mae amserlenni gweithdai a chynlluniau gwerthuso'n cael eu datblygu gyda phartneriaid. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Cydraddoldeb ac Ymgysylltu

Canlyniadau:

- Cynnydd mewn hyder ac arbenigedd sefydliadol wrth roi cynhwysedd a hygyrchedd wrth wraidd cynllunio creadigol
- Mae cyfleoedd i ymwneud â llenyddiaeth yn cael eu darganfod gan unigolion ledled Cymru
- Mae cymunedau a dangynrychiolir yn hanesyddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Bydd Nia Morais, Bardd Plant Cymru, yn gweithio gyda 30 o bobl ifanc sy'n arddel hunaniaeth LHTDC+ i gyfuno barddoniaeth a chelfyddyd traeth yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot ac Ynys Môn. Bydd y prosiect hwn, sy'n dathlu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymuned sy'n cael ei thangynrychioli, yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Urdd, a fydd yn comisiynu ffilm fer o'r gerdd/gosodiad celf terfynol. | **Heb eu cyflawni:** Ni chynhaliwyd gweithdy yn Ynys Môn gan fod blaenoriaethau'r Urdd wedi newid. Cynhaliwyd gweithdy yng Nghastell-nedd, ond roedd y nifer a oedd yn bresennol yn is na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol | **Heb eu cyflawni:** Cynhaliwyd gweithdy yng Nghastell-nedd, mae artist wedi'i gomisiynu, a bydd y gelfyddyd stryd yn cael ei chwblhau yn ystod hanner tymor mis Hydref. Trefnwyd i Boom Cymru ffilmio'r prosiect a fydd yn cael sylw yn Y Sîn ym mis Tachwedd. | Mae'r effaith a fwriadwyd wedi'i chyflawni, ond cymerodd llai o gyfranogwyr ran na'r disgwyl, ac nid oes gwaith wedi'i wneud â'r gymuned yn Ynys Môn |
| £3,000 i'w ddosbarthu o'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau i drefnwyr digwyddiadau ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir y Fflint a Wrecsam, sy'n ardaloedd lle mae digwyddiadau drwy'r gronfa yn brin. Bydd hyn yn dilyn ymgyrch wedi'i thargedu i ymwneud â threfnwyr digwyddiadau a'u cefnogi, a hynny drwy broses ymgeisio. | **Ar y ffordd:** Dim ond 1 cais oedd wedi dod i law o'r 4 ardal darged erbyn diwedd mis Medi. Disgwylir mwy o geisiadau cyn hir, gan gynnwys gan Ŵyl Geiriau Wrecsam. | Mae gwaith ymchwil a gwaith i feithrin perthynas gan ganolbwyntio ar Sir y Fflint a Wrecsam wedi'i wneud, a chysylltwyd â phob ysgol leol a nifer o drefnwyr cymunedol. Cynorthwywyd 1 ymgeisydd newydd i gwblhau'r ffurflen cyn y dyddiad cau ym mis Medi | Dylid cyrraedd y targed yn sgil yr ŵyl, ond mae mwy o gymorth yn cael ei roi i'r staff i sicrhau eu bod yn meithrin perthynas ym Mlaenau/Merthyr yn Chwarter 3. |
| 10 ysgol ac un Uned Drochi Gymraeg yn Wrecsam yn cael gweithdai ysgrifennu creadigol cyn mis Awst 2025, gan gyhoeddi pamffled o'u cerddi a chynnal digwyddiad i ddathlu yn yr Eisteddfod ei hun. | **Wedi cwblhau:** Cynhaliwyd gweithdai yn Chwarter 1. Cynhaliwyd digwyddiad dathlu yn yr Eisteddfod – 'Croeso i Wrecsam!'– i agor y Babell Lên am yr wythnos, a denwyd cynulleidfa o tua 150 – nifer ohonyn nhw'n aelodau o deuluoedd nad oedd yn siarad Cymraeg. Perfformiodd 22 o blant gerddi ar y llwyfan, a chynhaliodd y beirdd – Rhian Cadwaladr a Buddug Roberts – y digwyddiad yn ardderchog. Cafodd 500 copi o'r pamffled barddoniaeth ei ddosbarthu gyda chymorth gan awdurdod lleol Wrecsam. Rhoddodd Leusa Llewelyn, y Cyfarwyddwr Artistig, gyfweliad i Heledd Cynwal am y prosiect ar raglen fyw'r Eisteddfod ar 2/8/25, a chrybwyllwyd y prosiect yn fyr ar BBC Cymru Fyw. | | |
| 5 grŵp ym Mhen Llŷn, nad ydyn nhw'n ymwneud â phrosiectau llenyddol gan amlaf, wedi cymryd rhan ym mhrosiect Erydiad gydag Anni Llŷn i edrych ar leisiau'r gymuned a barn pobl am y dirwedd, yr argyfwng hinsawdd, cymdeithas ac iaith. | **Wedi'i gwblhau:** Sesiynau wedi'u cynnal â grŵp darllen yn Nefyn, a'r rheini ar agor hefyd i gwsmeriaid tafarn gymunedol Yr Heliwr, Nefyn; sesiynau i'r teulu hefyd ym Mhlas Carmel; gweithdai gyda Blwyddyn 8 Ysgol Botwnnog a sesiynau gyda siaradwyr Cymraeg newydd ym Mhlas Carmel a Congl Meinciau – grwpiau oedd y rhain nad ydyn nhw wedi ymwneud â gweithgareddau ysgrifennu creadigol yn ddiweddar. | | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Y Gymraeg

Canlyniadau:

- Mae awduron (gweithwyr proffesiynol, cyfranogwyr a Phlant a Phobl Ifanc) yn datblygu sgiliau creadigol - ac yn cael eu hannog i greu gwaith artistig arloesol - trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cymru sy'n dathlu ein diwylliant a'n traddodiadau llenyddol Cymreig unigryw ac amrywiol gyda hyder, gan sicrhau eu bod yn ffynnu
- Diwylliant o barch, dealltwriaeth a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a'i thraddodiad llenyddol o fewn ein swyddfeydd, ein rhwydweithiau llawrydd a'r sector ehangach.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Nia Morais, Bardd Plant Cymru, i gyhoeddi o leiaf 4 cerdd ar gyfer plant Cymru ar amrywiaeth o themâu. Bydd rhai yn ffrwyth cydweithio, a rhai'n cael eu creu ar y cyd â phartneriaid rhaglen Bardd Plant Cymru (Yr Urdd, Llywodraeth Cymru, S4C, Cyngor Llyfrau Cymru). | **Wedi Cwblhau:** 4 o gerddi wedi'u cyflwyno erbyn diwedd mis Awst, ac mae modd eu darllen ar ein gwefan | | |
| 10 o awduron LHDTCA+ Cymraeg sy'n ymweld â Thŷ Newydd fel rhan o encil sy'n bartneriaeth rhwng Llyfrau Lliwgar a Llenyddiaeth Cymru yn mynd yn eu blaenau i gyfrannu at gyhoeddiad sy'n cynnwys gwaith creadigol arloesol ar themâu LHDTCA+. | **Ar y trywydd iawn:** Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio'r cwrs ac mae'r alwad am awduron ar agor, ond y cwrs ddim i'w gynnal tan y gaeaf. | **Ar y trywydd iawn:** Fel ar y chwith | |
| Y 12 awdur ifanc sy'n cymryd rhan yng Nghwrs Olwen yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus, wedi'u hysbrydoli i ddechrau eu gyrfaoedd ysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg a gyda gwell dealltwriaeth o lwybrau cyhoeddi. | **Heb ddechrau eto:** Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio'r cwrs ac mae'r alwad am awduron ar agor, ond y cwrs ddim i'w gynnal tan y gaeaf. | **Ar y trywydd iawn:** Fel ar y chwith | |
| Gwobr Llyfr y Flwyddyn, a'r enillwyr Cymraeg, yn cael sylw yn y wasg Saesneg. 6 darn yn rhoi sylw gan ganolbwyntio ar y rhestr fer/enillwyr Cymraeg. | **Wedi Cwblhau:** 3 darn yn rhoi sylw i gyhoeddi'r rhestr fer, a 6 yn rhoi sylw i'r seremoni a'r enillwyr. Rhoddwyd sylw i'r rhestr fer yn nation.Cymru, BBC a'r Western Mail. Rhoddwyd sylw i'r seremoni yn BBC News Online, The Bookseller, nation.Cymru, Western Mail (sylw cyffreinol), Western Mail (cyfweliad â Iola Ynyr) , Radio Wales Arts Show (cyfweliad â'r ddau enillydd) | | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Y Gymraeg

Canlyniadau:

- Mae awduron (gweithwyr proffesiynol, cyfranogwyr a Phlant a Phobl Ifanc) yn datblygu sgiliau creadigol - ac yn cael eu hannog i greu gwaith artistig arloesol - trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cymru sy'n dathlu ein diwylliant a'n traddodiadau llenyddol Cymreig unigryw ac amrywiol gyda hyder, gan sicrhau eu bod yn ffynnu
- Diwylliant o barch, dealltwriaeth a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a'i thraddodiad llenyddol o fewn ein swyddfeydd, ein rhwydweithiau llawrydd a'r sector ehangach.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Cynllun Pencerdd i gywion cynganeddwyr yn cael ei gynnal am yr eildro i 6 o unigolion sy'n cael eu tangynrychioli. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar draddodiad llenyddol hynaf a mwyaf unigryw Cymru, ac yn sicrhau ei fod yn esblygu ac yn cael ei ddefnyddio gan leisiau newydd. 5 o gynganeddwyr newydd y mae'u lleisiau a'u profiadau bywyd wedi'u tangynrychioli yn y byd cynganeddol yn cymryd rhan mewn rhaglen ddatblygu, gan rannu'r hyn a ddysgir â chymuned o'u dewis nhw. | **Wedi Cwblhau:** Er nad yw'r cynllun wedi dod i ben eto... Mae pawb wedi ymwneud yn llawn â'r rhaglen hyd yma ac mae cyfleoedd wedi'u trefnu i rannu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu. | | |
| Dathlu diwylliant a thraddodiadau llenyddol Cymru drwy bartneriaeth ag Iwerddon. 3 digwyddiad (cyrsiau/digwyddiadau cyhoeddus) yn cael eu darparu sy'n creu cysylltiadau rhwng diwylliant llenyddol Cymru ac Iwerddon. | **Ar y trywydd iawn:** 1 digwyddiad wedi'i gynnal yng Nghanolfan Cymry Llundain (10 Mehefin) gydag Ifor ap Glyn ac Aine Ni Ghlinn. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal am ragor o ddigwyddiadau i gyd-daro ag Wythnos Cymru yn Nulyn (Mawrth 26). Mae cwrs mewn partneriaeth â Stinging Fly wedi'i raglennu. | Cynhaliwyd ysgol haf Stinging Fly ym mis Awst ac rydyn ni wedi datblygu partneriaeth gyda'r British Council yn Iwerddon i helpu Menna Elfyn i gymryd rhan mewn digwyddiad Ewropeaidd a gynhelir yn Nulyn fis Tachwedd. At hynny, mae digwyddiad yn ein rhaglen gyhoeddus sy'n trafod goblygiadau Incwm Sylfaenol Cyffredinol Iwerddon i artistiaid wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2026. | |
| Staff sy'n ddysgwyr Cymraeg yn dweud bod y sesiynau Cymraeg a arweinir gan wahanol aelodau'r tîm sy'n siaradwyr rhugl wedi gwella'u hyder i ddefnyddio'u Cymraeg yn eu swyddi. Mae'r holl ddysgwyr Cymraeg yn dweud eu bod nhw'n fwy hyderus, ac yn gallu defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y gweithle mewn ffyrdd pendant. | **Ar y trywydd iawn:** Mae sesiynau'n cael eu cynnal yn wythnosol ond bydd gwaith i fesur sut y cyrhaeddir y targed hwn yn cael ei wneud fel rhan o arolwg y staff ym mis Medi/Hydref. | Mae sesiynau wedi parhau i gael eu cynnal yn wythnosol, a byddwn ni'n mesur pethau yn ystod arolwg y staff yn Chwarter 3. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Y Gymraeg

Canlyniadau:

- Mae awduron (gweithwyr proffesiynol, cyfranogwyr a Phlant a Phobl Ifanc) yn datblygu sgiliau creadigol - ac yn cael eu hannog i greu gwaith artistig arloesol - trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cymru sy'n dathlu ein diwylliant a'n traddodiadau llenyddol Cymreig unigryw ac amrywiol gyda hyder, gan sicrhau eu bod yn ffynnu
- Diwylliant o barch, dealltwriaeth a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a'i thraddodiad llenyddol o fewn ein swyddfeydd, ein rhwydweithiau llawrydd a'r sector ehangach.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| 8 o awduron yn cymryd rhan mewn gwersi Cymraeg drwy ein cymorth a'n hymyriadau. Parhau i ddatblygu'r bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cyrsiau dysgu Cymraeg sydd wedi'u creu'n benodol ar gyfer yr awduron sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o'n rhaglenni, yn dilyn cyrsiau tebyg yn 2023 a 2024. | **Ar y trywydd iawn:** Dechreuodd y gwersi ym mis Medi, a byddan nhw'n parhau tan fis Mawrth 2026. Bydd 10 o awduron o dair rhaglen yn cael eu cefnogi (Cynrychioli Cymru, Sgwennu'n Well ac Awduron wrth eu Gwaith), ynghyd ag un aelod o staff. Dechreuodd y gwersi ar 24/9/25. | **Ar y trywydd iawn:** Dechreuodd gwersi ar y 24/09/25 | |
| Bydd gan awduron sy'n gweithio mewn ieithoedd Ewropeaidd lleiafrifol fwy o ddealltwriaeth am Gymru a'r Gymraeg, yn dilyn cyfnod preswyl dros bythefnos yn Nhŷ Newydd ym mis Mai 2025. Bydd yr holl awduron yn sôn am well dealltwriaeth yn y gwerthusiad wedi'r cyfnod preswyl, a'r rhan fwyaf yn dymuno cydweithio ymhellach ag awduron o Gymru. | **Wedi Cwblhau:** Roedd 100% (9/9) o'r awduron yn 'sicr yn cytuno' bod cyfnod preswyl LLIF a'u hymweliad â Chymru wedi gwella'u dealltwriaeth o Gymru a'r Gymraeg; ac roedd 100% (9/9) o'r awduron yn 'sicr yn cytuno' eu bod wedi cael eu hysbrydoli i gydweithio ymhellach ag awduron o Gymru.<br>*"Mae Cymru'n dangos ei bod yn bosibl cefnogi a hyrwyddo iaith leiafrifol heb edrych yn hiraethus i'r gorffennol, a heb wneud hynny mewn ffordd genedlaetholgar, ond yn hytrach mewn ffordd hael, gyda llygaid ar y dyfodol diwylliannol. Cefais fy ysbrydoli gan y ffordd y mae'r Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd, ac i'w gweld mewn llefydd creadigol ac mewn disgwrs cyhoeddus. Hoffais y ffordd y mae llenyddiaeth yn cael ei defnyddio fel pont rhwng ieithoedd a chymunedau. Dyma rywbeth y gallwn ni yn Ynysoedd Ffaro a'r rhanbarth Nordig ddysgu oddi wrtho. Fe fydda' i'n sôn am hyn mewn sgyrsiau gyda sefydliadau diwylliannol a gwyliau yn fy ngwlad fy hun, yn enwedig wrth drafod sut rydyn ni'n cefnogi awduron ifanc sy'n gweithio mewn ieithoedd bach."* | | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Cyfiawnder Hinsawdd

Canlyniadau:

- Mae gweithgarwch sy'n defnyddio llenyddiaeth i gynyddu dealltwriaeth am yr argyfwng hinsawdd yn ysbrydoli unigolion a chymunedau i wneud newidiadau er lles yr amgylchedd a'r hinsawdd
- Cynnydd mewn dealltwriaeth ar draws tîm Llenyddiaeth Cymru o effaith amgylcheddol ein gwaith, a chynnydd mewn hyder wrth ystyried a gweithredu arferion cynaliadwy
- Lleihau allyriadau carbon weithrediadau Llenyddiaeth Cymru, ar y trywydd iawn i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr o EcoDewi ym Mhenrhyn Tyddewi yn teimlo wedi eu grymuso i daclo materion cyfiawnder hinsawdd leol, a chynnydd yn y teimlad o gydlyniad cymunedol yn dilyn cyfranogiad ym mhrosiect Llên mewn Lle. | **Wedi'i gwblhau:** Cadarnhaodd yr adborth fod cyfranogwyr EcoDewi ar benrhyn Tyddewi yn teimlo'n fwy parod i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd ar ôl y gweithdai: *"Agorodd y prosiect fy llygaid i gynifer o bethau nad oeddwn i'n eu gwybod (neu'n dewis peidio â'u gwybod). Tynnodd y gweithdai fy sylw at bwysigrwydd y newid yn yr hinsawdd, a'r angen i sgwrsio amdano, ac roedd ysgrifennu am hyn yn fy helpu i ddeall pethau'n well."*<br>Cadarnhaodd yr adborth hefyd fod gan y cyfranogwyr ymdeimlad cryfach o gydlyniant cymunedol ar ôl cymryd rhan yn y cynllun Llên mewn Lle: *"Synnais at sut gwnaeth y gweithgareddau ysgogi sawl peth – syniadau, sylweddoliadau, ysbrydoliaeth. Rydw i'n awyddus iawn i wneud mwy oherwydd hyn! Gwnaeth i mi feddwl am blanhigion a fy nghyfraniad i at y byd. Roedd yn broc i'r meddwl wrth roi cyfle i feddwl a chyfathrebu y tu allan i'n byd cyfforddus arferol ni, ac roedd hynny'n werth chweil iawn i mi. Mae'r ymrwymiad cymunedol yn beth gwych, ac roedd hi'n braf bod gyda'n gilydd mewn grŵp i sgwrsio gyda'r ffermwr a'r ecolegydd, a roddodd gymaint mwy o gyd-destun i bethau. Rydw i'n teimlo fy mod i wedi dysgu pob math o bethau."* | | |
| Alex yn ymweld â 5 ysgol ar ei daith gerdded 5 niwrnod yn Ynys Môn, gan gynnal gweithdai am yr argyfwng hinsawdd | **Wedi'i gwblhau:** Cyrhaeddwyd dros 350 o blant ar y daith gerdded, gan ymweld â 5 o ysgolion. | | |
| 2 o gyfnodau preswyl i awduron i'w darparu gan hwyluswyr lleol i helpu grwpiau cymunedol sy'n bodoli'n barod i ddefnyddio ysgrifennu creadigol i ymateb yn gadarnhaol i effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn lleol. | **Ar y trywydd iawn:** Cadarnhawyd cyllid gan WWF, gyda'r cyfnod preswyl cyntaf i'w gynnal yn nhymor yr hydref 2025 yn ardal moryd afonydd Cleddau. | **Ar y trywydd iawn:** Dynodwyd rheolwr i'r prosiect ac mae'r gwaith cynllunio'n mynd rhagddo. | Gan iddi gymryd hwy na'r disgwyl i gadarnhau'r cyllid, rydyn ni'n cadw llygad barcud i sicrhau ein bod yn cyflawni'n brydlon gyda phartneriaid. Dim pryderon o bwys |
| Y staff yn deall buddion defnyddio hwyluswyr lleol, ac yn dilyn yr arferion gorau wrth gynllunio prosiectau. Y staff yn cael adroddiadau am filltiroedd sy'n gysylltiedig â phrosiectau bob chwater, ac yn dweud yn arolwg y staff eu bod yn deall buddion defnyddio hwyluswyr lleol ac wedi cyflwyno newidiadau wrth gynllunio prosiectau | **Ar y trywydd iawn:** Mae cyfarfod staff i drafod caffael wedi'i gynnal. Adroddiadau milltiroedd Chwarter 1 wedi'u dadansoddi a'u trafod â'r rheolwr prosiect. | **Ar y trywydd iawn:** Adroddiad milltiroedd Chwarter 1 wedi'i greu a'i ddadansoddi. Arolwg y staff wedi'i ddylunio a bydd yn cael ei anfon yn Chwarter 3. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Cyfiawnder Hinsawdd

Canlyniadau:

- Mae gweithgarwch sy'n defnyddio llenyddiaeth i gynyddu dealltwriaeth am yr argyfwng hinsawdd yn ysbrydoli unigolion a chymunedau i wneud newidiadau er lles yr amgylchedd a'r hinsawdd
- Cynnydd mewn dealltwriaeth ar draws tîm Llenyddiaeth Cymru o effaith amgylcheddol ein gwaith, a chynnydd mewn hyder wrth ystyried a gweithredu arferion cynaliadwy
- Lleihau allyriadau carbon weithrediadau Llenyddiaeth Cymru, ar y trywydd iawn i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Erbyn mis Rhagfyr 2025, archwiliad mewnol anffurfiol wedi'i gwblhau o brosesau caffael Llenyddiaeth Cymru i sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei ystyried wrth brynu ar raddfa fach a mawr. Archwiliad wedi'i gwblhau a sesiwn hyfforddiant wedi'i rhoi i'r staff | **Ar y trywydd iawn:** Archwiliad i'w gynnal ym mis Rhagfyr, gyda hyfforddiant i staff ym mis Ionawr. Mae targed ar wahân ar gyfer prynu bwyd, ac mae cynnydd yn cael ei wneud i sicrhau ein bod yn caffael yn lleol. | **Dim cynnydd eto** | Oherwydd newidiadau staffio, bu oedi yn hyn o beth. Mae rhagor o waith goruchwylio'n cael ei wneud i gyflawni'r targed |
| Rhestr wirio o'r ystyriaethau cynaliadwyedd wedi'i rhannu â threfnwyr digwyddiadau cymunedol lleol. Bydd honno ar gael ar y wefan ac yn cael ei rhannu, a bydd cymorth wedi'i gynnig i 8 o sefydliadau sy'n gwneud cais i'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau. | **Wedi'i gwblhau:** Mae holl ymgeiswyr llwyddiannus y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau wedi cael cyngor am gynaliadwyedd a gwahoddiad i drafod hyn â ni. | | |
| 40% o fwyd Tŷ Newydd yn cael ei brynu gan gyflenwyr lleol. | **Ar y trywydd iawn:** Gwelliant o 25% yn Chwarter 1 i 37% yn Chwarter 2 | **Ar y trywydd iawn:** Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys:<br>Trefnu i gyflenwr lleol ddanfon llaeth i ni.<br>Newid ein cyflenwr coffi i frand lleol<br>Meithrin perthynas â deli lleol i brynu mwy oddi yno<br>Hyrwyddo bwyd lleol wrth ddisgrifio prydau, h.y. 'Bolognese cig eidion lleol' i greu mwy o ymwybyddiaeth ymhlith gwesteion. | Mae angen cymryd mwy fyth o gamau ac mae angen i reolwr Tŷ Newydd oruchwylio hyn ymhellach |
| Cynllun i leihau'r defnydd o nwy wedi'i greu erbyn mis Awst 2025, ac wedi'i gyflwyno i'r staff yn Chwarter 3. Rheolwr Tŷ Newydd i roi adroddiad am y camau ymarferol a gymerwyd i leihau'r defnydd o nwy erbyn mis Mawrth 2026. | **Ar y trywydd iawn:** Cynllun wedi'i gwblhau | Cafodd y cynllun ei gwblhau ym mis Medi | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Datblygu Talent

Canlyniadau :

- Cefnogi gweithlu medrus a gweledigaethol o weithwyr llawrydd, awduron proffesiynol a staff o fewn y sector llenyddol gan ddarparu hyfforddiant, cyfleoedd â thâl ac eirioli dros ymarferion cyflogi teg.
- Mae awduron, yn enwedig awduron o gymunedau sy'n wynebu rhwystrau rhag ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd, yn derbyn cefnogaeth i wneud cynnydd gyda'u 'sgwennu a chyfleoedd cyhoeddi
- Dethlir yr ystod amrywiol o awduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru a thrwy hyn, anogir rhagor o gyd-ddealltwriaeth ledled Cymru

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Cyhoeddi diweddariad canllawiau Ffioedd Awduron a chanllawiau Cyflogaeth Deg ym mis Mawrth 2025. Ffioedd ar gyfer 2025/26 i gael eu mesuro yn erbyn canllawiau. Lledu ymwybyddiaeth o'r canllawiau drwy sgyrsiau uniongyrchol ag awduron, a'u helpu i eirioli dros ffioedd teg. Diweddariad i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2025. 30 o awduron i elwa o sgyrsiau penodol am ffioedd awduron a sut i eirioli drostyn nhw'u hunain. | **Wedi'u cwblhau yn rhannol:** Mae'r log cymorth yn dangos ein bod wedi sgwrsio'n benodol â 38 o awduron eleni hyd yma. Bydd diweddariad o ffioedd i awduron (ar gyfer 26/27) yn cael ei gyhoeddi erbyn y Nadolig, er mwyn gallu cyllidebu ar gyfer 26/27. | Cafodd 30 o sgyrsiau ag awduron eu cofnodi yn y Chwarter hwn. Mae ffioedd awduron wedi'u diweddaru ar y wefan ac ymchwiliwyd i anghysondebau yn Chwarter 1 (camgymeriad ar anfoneb, ac arhosiad yn Nant fel taliad rhannol). | |
| 2 o gamau gweithredu pendant wedi'u cymryd yn dilyn y rhaglen Newid Diwylliant. | **Wedi'i gwblhau.** Bu dyrchafiad mewnol, a phenodwyd rhywun i swydd lefel mynediad newydd a honno'n benodol i rywun o gefndir sy'n cael ei dangynrychioli ym myd gweinyddu'r celfyddydau. | | |
| Cynnig cyfleoedd cyflogedig uniongyrchol i o leiaf 175 awdur proffesiynol; i fod yn diwtor, mentor, hyfforddi neu berfformio ar raglenni LlC. | **Ar y trywydd iawn:** Talodd 131 o awduron unigol am eu gwasanaethau yn hanner cyntaf y flwyddyn. | **Ar y trywydd iawn:** Talwyd 85 o awduron yn ystod Chwarter 2. | |
| Cyfranogwyr Cynrychioli Cymru sy'n dymuno gwneud hynny yn cyhoeddi gwaith o fewn tair blynedd i gymryd rhan yn y rhaglen. 40% o gyfranogwyr Cynrychioli Cymru wedi cyhoeddi eu cyfrolau eu hunain o fewn 3 blynedd i gymryd rhan. | **Ar y trywydd iawn:** Bydd y ganran yn cael ei chyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond rydyn ni'n clywed llond gwlad o straeon am lwyddiant unigolion, a llawer ohonyn nhw'n diolch i'r rhaglen am y llwyddiant hwnnw. | **Ar y trywydd iawn:** Ymhlith uchafbwyntiau Chwarter 2 mae:<br>- (Cynrychioli Cymru 2) Bydd *Communion,* nofel gyntaf Jon Doyle, yn cael ei chyhoeddi gan Atlantic Books ym mis Ebrill 2026. "*Wrth i mi ysgrifennu hyn atoch, rwy'n darllen proflenni fy nofel cyn iddi fynd i brint. Rwy'n ei chanol hi, a'm llygaid fymryn yn groes ar ôl syllu ar y sgrin gyhyd. Ffordd arall yw hyn o ddweud y dylech chi fod 100% yn falch o gynllun Cynrychioli Cymru, oherwydd rwy'n sicr na fyddwn i yma heb y rhaglen.*<br>- (Cynrychioli Cymru 3) Bydd cyfrol ddiweddaraf Bethany Handley, *My Body is a Meadow: Finding Freedom in the Outdoors,* yn cael ei chyhoeddi gan Headline ym mis Mai 2026.<br>- (Cynrychioli Cymru 4) Bydd Marged Wiliam yn cyhoeddi'i gwaith gyda gwasg Y Stamp yn 26/27. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Datblygu Talent

Canlyniadau :

- Cefnogi gweithlu medrus a gweledigaethol o weithwyr llawrydd, awduron proffesiynol a staff o fewn y sector llenyddol gan ddarparu hyfforddiant, cyfleoedd â thâl ac eirioli dros ymarferion cyflogi teg.
- Mae awduron, yn enwedig awduron o gymunedau sy'n wynebu rhwystrau rhag ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd, yn derbyn cefnogaeth i wneud cynnydd gyda'u 'sgwennu a chyfleoedd cyhoeddi
- Dethlir yr ystod amrywiol o awduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru a thrwy hyn, anogir rhagor o gyd-ddealltwriaeth ledled Cymru

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| 300 o bobl yn bresennol yn sesiynau cyhoeddus y rhaglenni i ddatblygu awduron a gyflwynir yn rhithwir, gan ganolbwyntio ar ysbrydoli awduron ac esbonio'r llwybrau i gyhoeddi. Y sesiynau ar agor i bawb (i'r cyhoedd) ond yn cael eu marchnata'n benodol i ymgeiswyr aflwyddiannus am ein cynigion i ddatblygu awduron. | **Ar y trywydd iawn:** Y rhaglen wedi'i chyhoeddi a sesiynau i'w cynnal rhwng mis Medi a mis Mawrth. Cofrestrodd 381 a chynhaliwyd 1 digwyddiad. | **Ar y trywydd iawn:** Y rhaglen wedi'i lansio ganol mis Medi gydag un digwyddiad (panel cyhoeddwyr Cymraeg) yn cael ei gynnal. Roedd 53 yn bresennol yn y sesiwn | |
| 5 o gywion cynganeddwyr yn cael eu paru ag athro barddol fel rhan o'r rhaglen flwyddyn o hyd erbyn mis Gorffennaf 2025. | **Wedi'i gwblhau:** . Mae'r 5 egin gynganeddwr wedi cael eu paru ag Athro Barddol yn barod am y broses ddatblygu flwyddyn o hyd: Nanw Maelor – Eurig Salisbury ; Megan Jones – Osian Rhys Jones ; Mared Fflur – Mererid Hopwood ; Llio Maddocks – Rhys Iorwerth; Brennig Davies – Gruffudd Eifion Owen | | |
| Bardd Cenedlaethol Cymru a'i gwaith yn cael ei llwyfannu mewn 6 digwyddiad proffil uchel, fel lansiad swyddogol Gardd Goffa Erddig, a'r cydweithio rhwng Cymru ac Iwerddon yn Llysgenhadaeth Iwerddon ym mis Mehefin. | **Ar y trywydd iawn:** 1 digwyddiad wedi'i gynnal a 5 yn y dyddiadur. Digwyddiad 'Welsh Stories' yng Ngŵyl y Gelli (mis Mai), gŵyl Voiced yn Llundain (mis Hydref), Plygain gyda Catrin Finch (mis Rhagfyr), Y Ganolfan Astudiaethau Islam (mis Tachwedd), Techniquest (mis Hydref), Menywod Cronig (mis Mawrth) | **Ar y trywydd iawn:** Gwnaed rhagor o waith cynllunio ar gyfer digwyddiadau'r hydref. | |
| Sicrhau bod 40 o ddarnau yn y wasg a'r cyfryngau (print, ar-lein a darlledu) yn dathlu'r awduron sydd ar y rhestr fer ac awduron buddugol Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2025. | **Wedi'i gwblhau:** Ar 28 Gorffennaf, cofnodwyd 46 darn yn rhoi sylw, gan gynnwys ar y teledu, ar y radio, mewn print ac ar-lein. Nid yw hyn yn cynnwys straeon newydd a chylchlythyron gan gyhoeddwyr neu sefydliadau eraill. | | |
| 160 o awduron unigol wedi eu cefnogi trwy Gronfa Ysbrydoli Cymunedau i weithio mewn cymunedau ar draws Cymru. | **Ar y trywydd iawn:** 66 o awduron unigol wedi cael eu hariannu rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025 | **Ar y trywydd iawn:** Arafodd y cynnydd yn y Chwarter hwn (gan fod llai o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r haf ac ati), ond rydyn ni'n hyderus y byddwn ni'n cyrraedd y targed gan fod ceisiadau mawr i ddod gan wyliau sy'n rhoi llwyfan i nifer o awduron. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Trawsnewid

Canlyniadau:

- Cynnydd mewn synnwyr mewnol ac allanol o'r hyn mae Llenyddiaeth Cymru yn bodoli i gyflawni ac, yn hanfodol, beth nag ydy'n cyflawni, trwy gynnydd mewn cydweithio gyda sefydliadau eraill a neges syml cyd cysylltiedig gan y sector cyfan.
- Diwylliant sefydliadol sydd yn ymgorffori gwerthoedd sydd wedi eu hamlinellu yn Ein Haddewid ac sydd yn arwain y sector fel model o gyflogwr effeithiol a moesegol o staff a gweithwyr llawrydd.
- Mae rhwydwaith o hwyluswyr llenyddol yn cael ei ffurfio a'i hehangu er mwyn dod â llenyddiaeth er lles i gymunedau.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| O leiaf 3 digwyddiad sy'n rhan o'n rhaglenni datblygu awduron yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Llyfrau Cymru a chyhoeddwyr llyfrau/cylchgronau er mwyn egluro'r broses gyhoeddi i egin awduron. | **Wedi'u cwblhau:** Mae dros 20 o gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus yn rhan o'r rhaglen, rhwng 10 digwyddiad. | | |
| Erbyn Mawrth 2026, arwain 5 cyfarfod i drafod materion sector gyda phartneriaid llenyddol ar draws Cymru. | **Wedi'u cwblhau:** Cyfarfodydd â Chyngor Llyfrau Cymru i greu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth terfynol, cyfarfod cynllunio gyda Chyfnewidfa Lên Cymru, panel llenyddiaeth canolog yr Eisteddfod, cyfarfod y cwmnïau cenedlaethol gyda Dafydd (Cyngor Celfyddydau Cymru). Cyfarfod strategaeth gyda'r Llyfrgell Genedlaethol a Chyfarfod Llenyddiaeth y Pedair Cenedl wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Hydref. | | |
| Cwblhau gwaith gyda sefydliadau llenyddol i fapio'r sector, a bydd modd rhannu hyn ar wefannau'r sefydliadau a'i ddefnyddio i hyfforddi staff. Y fframwaith wedi'i gwblhau gan y sefydliadau erbyn mis Mehefin 2025, a sesiwn hyfforddi fewnol i'w chynnal erbyn mis Awst 2025. | **Oedi yn y broses**: Nid oedd sefydliadau'n ymateb i'r holiadur (gan gynnwys dim byd gan Gyngor Celfyddydau Cymru). Mae'r aelod o staff sy'n gyfrifol wedi ceisio dilyn trywydd gwahanol ac yn canolbwyntio ar gyfarfodydd llafar yn lle hynny. | **Oedi yn y broses**: Mae newidiadau i'r broses a chopi wedi'i ddiweddaru i'n gwefan wedi'u drafftio. Bydd hyn yn cael ei rannu â'r staff yn Chwarter 3. Mae'r Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru wedi cyfnewid organagramau gyda'r nod o drefnu cyfarfodydd rhwng staff ar bob lefel yn Chwarter 3, er mwyn deall gwaith ein gilydd yn well a chydweithio. | |
| Rheolwyr llinell yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu gallu i ddelio â sgyrsiau anodd gyda chydweithwyr, o ganlyniad i hyfforddiant. 100% ar 4 neu 5 yn arolwg y staff. | **Ar y trywydd iawn:** Mae 2 reolwr yn cael hyfforddiant am sut i ddelio â sgyrsiau anodd. Mae'r adborth anffurfiol wedi awgrymu nad oedd yr hyfforddiant o ansawdd da, ond bod cael amser i feddwl am y materion hyn wedi gwneud y staff yn fwy cyfforddus. Bydd arolwg y staff yn cael ei gynnal yn yr hydref. | **Ar y trywydd iawn:** Dim cynnydd yn y Chwarter hwn. | |
| Ein tîm yn dweud eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan Lenyddiaeth Cymru fel cyflogwr. Sicrhau bod 100% o staff yn dal i roi 5/5 neu 4/5 wrth ymateb i gwestiwn yn arolwg y staff am deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. | **Ar y trywydd iawn:** Bydd arolwg y staff yn cael ei gynnal yn yr hydref. Yn y cyfamser, ni fu unrhyw achosion o gwynion gan staff am y cymorth maen nhw'n ei gael na chan staff oedd yn teimlo nad oedden nhw'n cael eu gwerthfawrogi. | **Ar y trywydd iawn:** Dim cynnydd yn y Chwarter hwn. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Trawsnewid

Canlyniadau:

- Cynnydd mewn synnwyr mewnol ac allanol o'r hyn mae Llenyddiaeth Cymru yn bodoli i gyflawni ac, yn hanfodol, beth nag ydy'n cyflawni, trwy gynnydd mewn cydweithio gyda sefydliadau eraill a neges syml cyd cysylltiedig gan y sector cyfan.
- Diwylliant sefydliadol sydd yn ymgorffori gwerthoedd sydd wedi eu hamlinellu yn Ein Haddewid ac sydd yn arwain y sector fel model o gyflogwr effeithiol a moesegol o staff a gweithwyr llawrydd.
- Mae rhwydwaith o hwyluswyr llenyddol yn cael ei ffurfio a'i hehangu er mwyn dod â llenyddiaeth er lles i gymunedau.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd blwyddyn hyd yma | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|---|
| Cyflawni diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer staff ac ymddiriedolwyr yn Hydref 2025 sydd yn cynnig hyfforddiant, cynnydd mewn dealltwriaeth o strategaeth LlC, a meithrin ethos o gydweithio rhwng y ddau grŵp. Diwrnod cwrdd i ffwrdd i staff ac ymddiriedolwyr i'w gynnal ym mis Tachwedd 2025, gyda thrafodaeth am roi ein gwerthoedd ar waith – canfod camau gweithredu pendant i bawb allu gwreiddio'r rhain yn rhan o'u swyddi. | **Ar y trywydd iawn:** Mae diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd yn y dyddiadur ar gyfer 17-19 Tachwedd, ac fel rhan o'r amserlen mae sesiynau strwythuredig a chyfle i sgwrsio a meithrin perthynas. | **Ar y trywydd iawn:** Datblygwyd y rhaglen ddrafft ar gyfer y diwrnodau cwrdd i ffwrdd yn ystod y Chwarter hwn, gan gynnwys sesiwn am roi ein gwerthoedd ar waith, trafodaethau am dangynrychiolaeth, ac edrych ar ein strategaeth newydd. | |
| 9 mis ar ôl y prosiect, hwyluswyr sydd wedi cymryd rhan yng nghwrs Sgwennu'n Well (y grŵp cyntaf yn 24/25) yn dweud eu bod wedi defnyddio'r sgiliau a gafodd eu meithrin yn ystod y rhaglen mewn prosiectau eraill. | **Ar y trywydd iawn:** I fod i'w gynnal ym mis Tachwedd/Rhagfyr | **Ar y trywydd iawn:** Fel ar y chwith | |
| Y prosiect Menywod Cronig yn dod â 14 o fenywod at ei gilydd i edrych ar ysgrifennu am iechyd, ac er budd iechyd. Yn dilyn cyhoeddi'r antholeg, bydd y grŵp yn dal i weithio fel rhwydwaith. Byddan nhw'n cael cynnig cyfleoedd i ddatblygu'u sgiliau fel hwyluswyr ac i ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu i rymuso pobl eraill mewn cymunedau ledled Cymru. O leiaf 10 o'r grŵp o 14 yn cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu pellach i fireinio'u sgiliau fel ymarferwyr creadigol erbyn diwedd mis Mawrth 2026. | **Ar y trywydd iawn:** Mae 14 o feirdd wedi cymryd rhan mewn 2 weithdy rhithwir a edrychai ar ysgrifennu am iechyd ac er lles iechyd. Byddan nhw'n cwrdd eto yn Chwarter 3 er mwyn ceisio parhau â'r rhwydwaith. Mae'r gwaith rhaglennu'n mynd rhagddo ar gyfer rhoi mwy o hyfforddiant yn y maes hwyluso. | **Ar y trywydd iawn:** Yn y Chwarter hwn, canolbwyntiwyd ar hyfforddiant hwyluso rhaglenni sydd i'w gynnal yn Chwarter 4. | |
| Hwyluswyr sy'n cymryd rhan yn Sgwennu'n Well (grŵp 2) yn dweud bod y cymorth personol i ddatblygu eu prosiectau llên er lles yn eu cymunedau o'u dewis yn ddefnyddiol, a bod ganddyn nhw fwy o sgiliau a hyder. 6 o hwyluswyr yn dweud bod ganddyn nhw fwy o sgiliau a hyder ar ôl cael cymorth personol. | **Ar y trywydd iawn:** Nid yw'r gwerthusiad hwn wedi dechrau eto, ond mae disgwyl ei gynnal ym mis Mawrth 2026. | **Ar y trywydd iawn:** Fel ar y chwith | |

# Gwersi i'w Dysgu: Gweithgaredd a Gweithredol

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

| Gweithgaredd | Gwersi i'w Dysgu:<br><br>1 Gorffenaf – 30 Medi 2025 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| Teams | Gan ddefnyddio systemau fel Bookings, gall timau leihau yr amser maen nhw'n ei dreulio ar waith gweinyddol yn arw. | I drefnu'r cyfarfodydd wedi chwe mis gyda chyfranogwyr Cynrychiolwyr Cymru, roedd modd i'r awduron eu hunain ddefnyddio dolen Booking ar Teams. Roedd hyn yn osgoi wythnosau o fynd yn ôl ac ymlaen yn trafod amser addas, ac yn osgoi gorfod treulio amser yn creu dolenni unigol ar gyfer Zoom. Bydd y broses hon yn cael ei rhannu â'r tîm creadigol ehangach. |
| Llyfr y Flwyddyn | Trafodwyd nifer o wersi i'w dysgu yn y cyfarfod ôl-drafodaeth: mân bethau i'w newid yn y broses ac yn seremoni 2026 | - Ailwampio'r briff a'r trefniadau ar gyfer ffotograffiaeth er mwyn osgoi tarfu'n ormodol ar yr awduron buddugol<br>- Y derbyniad i'r gwesteion i bara o leiaf awr – rhan bwysig o'r digwyddiad; ac ystyried gwahodd awduron sydd ar y rhestrau byrion i'r lleoliad yn y prynhawn i'w briffio ac i gynnal derbyniad ar wahân<br>- Mireinio'r sgript i osgoi ailadrodd y diolchiadau i bartneriaid yn ormodol<br>- Penodi aelod o staff i reoli'r tîm o staff, gwirfoddolwyr a gweithwyr eraill |
| Grant Cyfalaf Tŷ Newydd | Mae prosiectau o'r maint hwn gydag amserlenni hynod o dynn y cyllidwr yn heriol dros ben, ac yn llyncu llawer o amser y staff | - Penodi Rheolwr Prosiect allanol yn gynt, er mwyn hwyluso'r broses gyfathrebu<br>- Yn ddelfrydol, byddai mwy o amser i baratoi gyda'r cyllid (nid oedd modd osgoi hynny y tro hwn)<br>- Osgoi gwaith y tu allan dros y gaeaf os yw'n bosibl<br>- Os bydd gennyn ni 8 wythnos i gwblhau'r gwaith, gofyn i'r pensaer/tirfesurydd i drefnu'r gwaith o fewn 5 wythnos, rhag ofn y bydd yr amserlen llithro, yn hytrach na llenwi'r 8 wythnos. |